

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/5287>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Chwefror

2019

Amser: 09.00 – 10.45

Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|----------------------|--|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd) Janet Finch-Saunders AC Mike Hedges AC Neil McEvoy AC Leanne Wood AC |
| Tystion: | Deryk Cundy, SOSPPAN John Prosser, SOSPPAN Louvain Roberts, SOSPPAN |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc) Ross Davies (Dirprwy Glerc) Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc) Sam Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-862 – Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i:

- ddarparu'r sylwadau pellach a gafwyd gan y deisebydd;
- gofyn iddi ddarparu asesiad o ddigonolrwydd dyletswyddau cyfreithiol cyfredol mewn perthynas ag atal a mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion; a
- gofyn am linell amser ar gyfer pryd y bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau gwrth-fwlio ar gael.

2.2 P-05-863 Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- aros am farn y deisebwyr ar yr ymateb a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip cyn ystyried a ddylid cymryd camau pellach ar y ddeiseb; ac
- ystyried gofyn i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gyfarfod â'r deisebydd i drafod y materion a godwyd yn y ddeiseb yn nes ymlaen.

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-05-836 Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb gan y deisebydd i'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog cyn ystyried camau pellach.

3.2 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â [P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru](#) a chytunodd i barhau i gadw golwg ar y sefyllfa nes bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Dr Jacinta Tan.

3.3 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc a chytunodd i barhau i gadw golwg ar y sefyllfa nes bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Dr Jacinta Tan.

3.4 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chytunodd i roi cyfle i'r bobl sydd wedi cysylltu â'r Pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn yn flaenorol roi eu barn, ac i ysgrifennu at Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda i ofyn am eu barn ar y cynlluniau a amlinellwyd gan y Bwrdd Iechyd a dyfodol gwasanaethau iechyd i Sir Benfro.

3.5 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ddiweddariad pellach gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag adolygiad o fuddiannau'r cynllun a'r fframwaith taliadau disgresiwn cyn ystyried y ddeiseb ymhellach, ac i ysgrifennu eto yn ystod y Pasg os na dderbynnir hwn.

3.6 P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r deisebydd, a chytunodd i ystyried y ddeiseb eto yn dilyn dadl y Cyfarfod Llawn a drefnwyd ar gyfer 6 Mawrth 2019.

3.7 P-05-743 Rhowch derfyn ar fasnachu anifeiliaid anwes egsoftig yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i ofyn:

- a yw hi o'r farn bod y gwahaniaeth rhwng trwyddedu a'r gyfundrefn reoleiddiol yng Nghymru a Lloegr yn peri risg i les anifeiliaid yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â'r fasnach anifeiliaid anwes egsotig; ac
- a yw'n bwriadu ystyried rhinweddau mabwysiadu rhai neu bob un o'r gwahanol newidiadau polisi a wnaed yn Lloegr gan y Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018.

3.8 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd i:

- ofyn am farn y grŵp ymgyrchu ar y datblygiadau diweddaraf cyn ystyried a all gymryd unrhyw gamau pellach ar y ddeiseb; ac
- ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt ddarparu amserlenni dangosol ar gyfer cynnal yr ailasesiad.

3.9 P-05-840 Cyllid Teg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) a phob Awdurdod Lleol arall

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail mai ychydig o gamau pellach y gellid eu cymryd ar hyn o bryd, yn wyneb y ffaith bod y Cynulliad wedi cytuno ar Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 ar 15 Ionawr 2019 a bod y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau pwnc eraill wedi craffu arni.

3.10 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar

Yn sgil datblygiadau diweddar sy'n dangos nad yw'r cynnig i adeiladu carchar newydd ym Maglan yn mynd rhagddo, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a llongyfarch y deisebwyr ar lwyddiant eu hymgyrch.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 5

Derbyniwyd y cynnig.

5 Trafod yr adroddiadau drafft

5.1 Adroddiad drafft – P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol

Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi adroddiad interim o'r dystiolaeth a gafwyd cyn gynted â phosibl ac i wahodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi dystiolaeth i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

5.2 Adroddiad drafft – P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth

Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi'r adroddiad drafft.

6 Sesiwn dystiolaeth – P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Deryk Cundy, John Prosser a Louvain Roberts o SOSPPAN.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8 Trafod y Sesiwn Dystiolaeth Flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda i ofyn am ymateb i rai o'r materion a godwyd.